# Ysgol Gyfun Garth Olwg

Pennaeth / Headteacher
Mrs. A. Williams B.A., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ 01443 219580 🖷 01443 219596
gweinyddol@campwsgartholwg.org.uk
www.gartholwg.co.uk


18fed o Fawrth 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad,

**Gweithredu Diwydiannol Undeb Athrawon NUT**

Fel y gwyddoch o'r cyfryngau mae Undeb Athrawon NUT yn bwriadu gweithredu'n ddiwydiannol dros baich gwaith, pensiynnau a thâl ar Fawrth 26ain 2014. Bydd y gweithredu (streic undydd cenedlaethol) yn golygu y bydd nifer fawr o'n disgyblion yn cael eu heffeithio gan na fydd athrawon i addysgu eu gwersi.

Rydym yn ymwybodol bod hyn yn anghyfleus i rieni a gwarchodwyr ac felly ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o effaith y gweithredu ar yr ysgol hon:

**BLYNYDDOEDD 7, 8 a 9**

**NI FYDD** yr ysgol ar agor i Flynyddoedd 7, 8 a 9.

**BLYNYDDOEDD 10, 11, 12 a 13**

Bydd yr ysgol **AR AGOR** i ddisgyblion Blynyddoedd **10, 11, 12 a 13**.

Ni chymerir y penderfyniad i gau'r ysgol i grwpiau o ddysgwyr yn ysgafn, ond yn yr achos yma, ble mae staff wedi penderfynu gweithredu'n ddiwydiannol yn gyfreithlon, bydd gennyf ddim dewis ond cymeryd y camau addas er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llês disgyblion a staff.

Bydd y rhan fwyaf o wersi Bl.10-13 yn parhau fel arfer, ond bydd rhai disgyblion dan arolygaeth yn y neuadd/llyfrgell ar gyfer ambell wers.

Bydd darpariaeth trafnidiaeth a chinio ysgol ar gael fel arfer ar y diwrnod hwn

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Mrs. A. Williams
Pennaeth

Campws Cymunedol Gartholwg Community Campus